**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH GWASANAETHAU OEDOLION A BUSNES)**

Cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes) a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Mawrth 14eg Mehefin 2011 am 5.35 p.m.

**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr J.A. Butterfield, P A Dobb. H.H Evans, I A Gunning a P W Owen.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr, Pennaeth AD Strategol, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Lles a Chynllunio, Swyddog Personél (Andrea Malam), Ian Jeffcott (Ymgynghorydd), Sally Baxter (Betsi Cadwaladr) a Phennaeth Gweithredol Llywodraethu Corfforaethol.

**RHAN 1**

**80 YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd dim ymddiheuriadau am absenoldeb.

**81 DATGAN BUDDIANNAU**

Ni chafodd ddim buddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu eu datgan.

**82 PENODI CADEIRYDD**

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd P A Dobb yn Gadeirydd y Panel.*

**83 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd dim eitemau brys.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 bod y wasg a'r cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra oedd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei hystyried am y rheswm ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.*

**84 PENODI PENNAETH GWASANAETHAU OEDOLION A BUSNES**

Roedd pedwar ymgeisydd wedi mynychu'r Ganolfan Asesu. Roedd aelodau'r Panel wedi cyfarfod â'r ymgeiswyr yn ystod y dydd a rhoesant adborth. Rhoddodd Swyddogion ac ymgynghorydd y Cyngor olwg cyffredinol ar y prosesau a'r ymarferiadau a wnaed gyda'r ymgeiswyr, eu sgorau o'r ymarferiadau hynny a'r farn a gafwyd o'r ymgeiswyr.

Ystyriodd aelodau'r Panel ganlyniadau'r asesiad a'r rhaglen gyfweld yn ofalus a daethant i'r casgliad y dylai tri ymgeisydd, yn ôl teilyngdod, gael eu gwahodd i gyfweliad terfynol gan y Panel ar y 15fed Mehefin 2011.

***PENDERFYNWYD*** *bod y tri ymgeisydd a ddewiswyd gan y Panel i'w gwahodd i gyfweliad terfynol gan y Panel ar ddydd Mercher, 15fed Mehefin 2011.*

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45 p.m.

********